# Cyngor Bro Morgannwg

# Sgip Adeiladwyr ar Briffordd

# Telerau ac Amodau

Fersiwn 4 - Medi 2024

**Telerau ac Amodau:**

1. Rhaid nodi enw'r perchennog a rhif ffôn 24 awr yn glir ar bob sgip.

2. Caiff pob sgip ei gosod ar y lôn gerbydau / llain ymyl y tu allan neu gerllaw'r lleoliad yn y cais, a chaiff lleiniau ymyl ac arwynebau ffordd eu hamddiffyn yn ddigonol a chaiff ei gosod fel bod yr ochrau lletaf yn gyfochrog ag ymyl y lôn gerbydau, a'i gosod mor agos â phosibl at ymyl y lôn gerbydau ag sy'n rhesymol ymarferol gan sicrhau na fydd yn amharu ar ddraeniad dŵr wyneb y briffordd nac ar unrhyw dyllau archwilio na chyfarpar unrhyw un o ymgymerwyr statudol Cyngor Bro Morgannwg.

3. Pan fo mwy nag un sgip ar y briffordd ar un adeg, bydd y sgipiau'n cael eu gosod mor agos â phosibl i'w gilydd, ond nid fel y byddant yn rhwystro mynediad i unrhyw safle oni bai bod cymeradwyaeth ymlaen llaw wedi'i chael.

4. Ni fydd unrhyw sgip yn hirach na 5 metr nac yn lletach na 2 fetr.

5. Rhaid i bob sgip neu grŵp o sgipiau a osodir ar y briffordd gydymffurfio â'r gofynion canlynol:

   a. Caiff deupen pob sgip eu paentio'n felyn a bydd llinellau lletgroes adlewyrchol melyn a fflworolau coch, yn unol â Rheoliadau Sgipiau Adeiladu 1984, wedi eu gosod islaw ac ar hyd ymyl uchaf pob pen fel eu bod yn weladwy i draffig. Rhaid sicrhau bod y paentiad a'r llinellau bob amser yn lân ac na chânt eu rhwystro gan darpolinau neu unrhyw fathau o orchuddion.

   b. Pan fo sgip yn cael ei gosod ar y lôn gerbydau, rhaid gosod o leiaf 3 chôn traffig ar y lôn gerbydau mewn llinell letraws ar ochr y sgip sy'n wynebu'r traffig. Pan fo 2 neu fwy o sgipiau'n cael eu gosod mewn rhes fel nad yw'r pellter rhwng sgipiau cyfagos yn fwy na 2 fetr, bydd y rhes yn cael ei gwarchod fel pe bai'n un sgip.

   c. Gyda'r nos (rhwng hanner awr cyn i'r haul fachlud a hanner awr ôl iddo godi)

      i. Caiff lamp melyn a weithredir â batri ei gosod yn erbyn pob cornel y sgip neu ei hatodi iddo, neu ar gorneli pen rhes o sgipiau pan fo 3 neu fwy o sgipiau wedi'u gosod mewn rhes ac nad yw'r pellter rhwng sgipiau cyfagos yn fwy na 2 fetr.

      ii. Pan fo sgip yn cael ei gosod ar lôn gerbydau, caiff lampau eu gosod yn unol â'r disgrifiad yn 5c) i) uchod, a chânt eu gosod hefyd rhwng y conau y cyfeirir atynt yn 5b) uchod. Bydd pŵer goleuol pob lamp yn cyfateb i o leiaf un candela, a bydd ynghynn gydol y nos.

6. Ni fydd unrhyw sgip, pan fo ar y briffordd, yn cynnwys unrhyw ddeunydd fflamadwy, ffrwydrol, gwenwynig neu beryglus, na deunydd sy'n debygol o bydru, sy'n niwsans i ddefnyddwyr y briffordd, nac sy'n debygol o fod yn niwsans.

7. Ni chaiff unrhyw sgip ei defnyddio mewn modd lle bydd ei chynnwys yn cwympo ar i'r briffordd, neu fod llwch o'r sgip yn dianc tra bydd ar y briffordd.

8. Bydd pob sgip yn cael ei symud i'w gwagio cyn gynted ag y bo'n ymarferol neu pan fydd yn llawn. Rhaid i'r holl wastraff gael ei gadw o dan rwydi sbwriel er mwyn atal gwastraff rhag cael ei ollwng i'r briffordd pan gaiff ei symud.

9. Ni chaiff unrhyw sgip aros ar y briffordd yn unol â'r caniatâd hwn ar ôl i'r drwydded ddod i ben.

10. Mae'r holl geisiadau i'w gwneud trwy ein ffurflen gais am wasanaeth ar-lein ac mae taliad i'w wneud yn llawn unwaith y caiff ei gymeradwyo drwy ein cyswllt talu diogel a fydd yn cael ei e-bostio atoch.

https://valeofglamorgancouncil-customerportal.achieveservice.com/en/service/highway_licenses

Cysylltwch â skipsscaffolding@valeofglamorgan.gov.uk os bydd unrhyw broblemau gyda'r cais.

11. Ni fydd y Cyngor yn prosesu unrhyw geisiadau sgip newydd lle mae darparwr mewn dyled i'r Cyngor am unrhyw dâl sy'n ddyledus.

12. Bydd unrhyw geisiadau cymeradwy yn cael eu had-dalu dim ond os gwneir cais cyn dyddiad dechrau'r drwydded, yna gellir rhoi ad-daliad am y swm priodol. Fodd bynnag, os derbynnir cais ar ôl dyddiad dechrau'r drwydded, yna ni roddir ad-daliad.

**Cosbau diffyg cydymffurfio**

Bydd costau unrhyw gamau gweithredu a gymerir gan Gyngor Bro Morgannwg i unioni torri unrhyw un o'r amodau hyn, neu atgyweirio unrhyw ddifrod a achoswyd yn cael eu hadennill gan Ddeiliad y Drwydded.

- Os byddwch yn methu â chydymffurfio â'r Telerau ac Amodau a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, byddwch yn agored i gamau gorfodi sy'n cynnwys Hysbysiad Cosb Benodedig **Rhan IX Deddf Priffyrdd 1980 am Rwystro Priffordd.**
- Adran 139 Rheoli sgip adeiladwyr (Cosb am sgip a osodwyd ar Briffordd heb ganiatâd yr Awdurdod Priffyrdd/yr amodau y mae'r caniatâd hwnnw yn ddarostyngedig iddynt) £100.00 Hysbysiad Cosb Benodedig.
- Adran 137 (Cosb am rwystro bwriadol) Hysbysiad cosb benodedig o £100.00
- Adran 149 Symud pethau sy'n cael eu gadael ar Briffyrdd ac sy'n peri niwsans ac ati. (Pŵer i'w symud ac adennill costau).
- **Adran 34 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ar gyfer dyletswydd gofal**
- Bydd yn ddyletswydd ar unrhyw berson sy'n mewnforio, cynhyrchu, cario, cadw, trin neu'n gwaredu gwastraff a reolir neu, fel brocer, sydd â rheolaeth ar wastraff o'r fath, i roi pob mesur ar waith sy'n berthnasol iddo yn rhinwedd y rôl honno ac sy'n rhesymol dan yr amgylchiadau.
- Hysbysiadau Cosb Benodedig o £300 am rai troseddau dan adran 34; methu â chydymffurfio â dyletswydd i gyflwyno dogfennau i'r awdurdod yn unol â rheoliadau a wneir ar unrhyw adeg dan adran 34(5).

**Indemniad Cyfreithiol**

Bydd Deiliad y Drwydded yn indemnio ac yn parhau i indemnio Cyngor Bro Morgannwg a/neu ei weision a'i asiantau rhag unrhyw atebolrwydd, rhag unrhyw hawliadau, galwadau, camau gweithredu, costau a difrodau sy'n deillio trwy neu o ganlyniad i osod sgipiau ar y briffordd, ar droedffordd, neu ar lain laswellt.  Bydd cyfnod yr indemniad yn dechrau'r un pryd ag y gosodir y sgip hyd nes y'i symudir yn barhaol.  Bydd y swm a yswirir gan y polisi yn £5,000,000 ar gyfer unrhyw un digwyddiad gydag yswiriwr cyfrifol. Ar unrhyw adeg y bydd yn ofynnol, bydd Deiliad y Drwydded yn cyflwyno'r polisi neu'r polisïau yswiriant a'r derbynebau sy'n nodi'r taliad am y polisi

presennol, i'r Awdurdod.